# CYNLLUN MARCIO TAG SAFON UWCH

**HAF 2024**

**SAFON UWCH**
**IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT – UNED 5**
**1570N50-1**

© WJEC CBAC Ltd.

## Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Ltd.

**TAG SAFON UWCH IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL A GOFAL PLANT**

**UNED 5: SAFBWYNTIAU DAMCANIAETHOL YNGHYLCH YMDDYGIAD OEDOLION**

**CYNLLUN MARCIO HAF 2024**

## Adran A

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.<br><br>(a) | *Darllenwch yr astudiaeth achos am Nico ac atebwch y cwestiynau isod.*<br><br>*Amlinellwch **dri** ffactor cymdeithasegol fyddai wedi gallu effeithio ar Nico.* | 6 | | | 6 |
| | Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor cymdeithasegol cywir o fewn yr astudiaeth achos a fyddai wedi gallu effeithio ar Nico.<br><br>Rhowch **1 marc** am amlinelliad sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth i nodi ffactor cymdeithasegol a fyddai wedi gallu effeithio ar Nico.<br><br>Rhowch 2 farc am amlinelliad da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o'r ffactorau seicolegol a fyddai wedi gallu effeithio ar Nico.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw **dri** o'r canlynol:<br><br>**Perthnasoedd teuluol**<br>• darparu adnoddau a allai helpu Nico i ymdopi â straen, ymddwyn yn iachach, a gwella hunan-barch, gan arwain at well llesiant<br>• effeithio ar agweddau, credoau, cyfleoedd a nodweddion personoliaeth Nico<br>• chwarae rhan hanfodol wrth ddylanwadu ar ddatblygiad unigolyn; roedd disgwyl i Nico ymuno â'r busnes teuluol a rhedeg y salon yn llwyddiannus<br>• bu farw gwraig Nico yn sydyn gan achosi galar iddo, a oedd yn golygu na allai ymdopi â gweithio<br>• gwnaeth merch Nico iddo sylweddoli nad oedd yn ymdopi a bod angen help arno<br>• merch Nico yn achosi straen a gofid iddo mewn perthynas â materion ariannol | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Diwylliannol**<br>• disgwyliad y teulu oedd y byddai Nico yn cymryd drosodd ac yn rheoli'r busnes trin gwallt gan ei fod wedi bod yn y teulu ers tair cenhedlaeth<br><br>**Modelau rôl**<br>• Roedd disgwyl i Nico ddilyn ac ailadrodd patrwm ei dad, yn y busnes teuluol<br><br>**Economaidd-gymdeithasol**<br>• Roedd Nico yn rheoli busnes llwyddiannus a byddai'n ennill cyflog da sy'n cynyddu'r dewisiadau sydd ar gael iddo o ran ffordd o fyw. Gall hyn fod yn gysylltiedig â gwell hapusrwydd a llesiant a llai o straen ac iselder.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |
| (b) | *Disgrifiwch sut byddai therapi siarad yn gallu helpu Nico i ymdopi â marwolaeth ei wraig.* | **6** | | | **6** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Fel rhan o therapi siarad, bydd unigolyn yn siarad â gweithiwr proffesiynol hyfforddedig am ei feddyliau, ei deimladau a'i ymddygiad. Gellir cyfeirio at therapi siarad fel cwnsela profedigaeth pan fydd yn digwydd ar ôl i unigolyn golli rhywun sy'n bwysig iddo. Gall hyn fod yn ddinistriol yn emosiynol i'r unigolyn.<br>Yn aml nodweddir profedigaeth gan alar, sef y broses a'r ystod o emosiynau y bydd unigolyn yn eu profi wrth iddo addasu'n raddol i'r golled.<br>Gallai therapi siarad gefnogi Nico drwy ei alluogi i:<br>• siarad â rhywun na fydd yn ei feirniadu<br>• gwneud synnwyr o bethau a deall ei hun yn well<br>• datrys teimladau cymhleth, neu ddarganfod ffyrdd o fyw â nhw<br>• adnabod patrymau nad ydynt o fudd iddo o ran ei ffordd o feddwl neu ei ffordd o weithredu, a darganfod ffyrdd o'u newid.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o therapi siarad<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai therapi siarad yn gallu helpu Nico i ymdopi â marwolaeth ei wraig |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o therapi siarad<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai therapi siarad yn gallu helpu Nico i ymdopi â marwolaeth ei wraig |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o therapi siarad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut byddai therapi siarad yn gallu helpu Nico. |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Trafodwch sut mae therapi siarad yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog.* | | | **6** | **6** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae egwyddorion gofal person-ganolog yn rhan ganolog o therapi siarad.<br><br>Defnyddio ymagwedd nad yw'n beirniadu:<br>• dod i adnabod yr unigolyn<br>• parchu a gwerthfawrogi ei hanes a'i gefndir<br>• deall ei hoff bethau a'i gas bethau<br>• deall ei sgiliau a'i alluoedd<br>• deall ei hoff ddulliau cyfathrebu<br>• deall ei strwythurau cymorth<br>• gwerthfawrogi effaith yr amgylchedd arno<br>• nodi ffyrdd o roi cymorth cyson i unigolyn ym mhob agwedd ar y gofal a gaiff<br>• datblygu a monitro cynlluniau sy'n amlinellu anghenion unigolyn, y canlyniadau llesiant a ddymunir a sut y gellir ei gefnogi i'w cyflawni.<br><br>Fel rhan o therapi siarad, bydd unigolyn yn siarad â gweithiwr proffesiynol hyfforddedig am ei feddyliau, ei deimladau a'i ymddygiad a bydd y gweithiwr proffesiynol yn:<br>• defnyddio ymagwedd nad yw'n feirniadol<br>• cyfathrebu ag unigolyn mewn ffordd effeithiol i gael gwybod am deimladau ac ymddygiad yr unigolyn a beth yr hoffai ei gyflawni<br>• edrych ar adnoddau mewnol yr unigolyn a'i system cymorth i'w alluogi i ddelio â'i feddyliau a'i deimladau a'i gefnogi i ddelio â'i golled<br>• datblygu mecanweithiau ymdopi unigolyn a monitro ei gynnydd fesul sesiwn<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth dda o sut mae therapi siarad<br>• yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin ag egwyddorion gofal person-ganolog |
| **2** | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae therapi siarad yn seiliedig ar egwyddorion gofal person-ganolog<br>• ymdrech syml i ymdrin ag egwyddorion gofal person-ganolog |
| **1** | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o therapi siarad<br>• ymdrech prin i ymdrin ag egwyddorion gofal person-ganolog |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 2. (a) | *Crynhowch **dri** ffactor fyddai wedi gallu cael effaith ar wydnwch Sofia.* | **6** | | | **6** |
| | Rhowch **hyd at 2 farc** am bob ffactor cywir o'r astudiaeth achos fyddai wedi gallu cael effaith ar wydnwch Sofia.<br><br>Rhowch **1 marc** am grynodeb sylfaenol sy'n dangos rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth sy'n nodi ffactor fyddai wedi gallu cael effaith ar wydnwch Sofia.<br><br>Rhowch **2 farc** am grynodeb da sy'n dangos gwybodaeth a dealltwriaeth glir o ffactor fyddai wedi gallu cael effaith ar wydnwch Sofia.<br><br>Gall atebion gyfeirio at unrhyw **dri** o'r canlynol:<br><br>• bod yn unig blentyn – gallai diffyg cystadleuaeth am gariad neu sylw gan ei rhieni fod wedi cael effaith ar ei gwydnwch mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol<br>• modelau rôl – mae ei thad, Nico, wedi bod yn fodel rôl cadarnhaol i Sofia wrth iddi dyfu i fyny<br>• addysg – aeth Sofia i'r coleg i gael ei hyfforddi fel triniwr gwallt<br>• cael ei difetha gan ei rhieni - gallai'r ffaith na fu'n rhaid iddi fynd heb ddim (e.e. swydd, fflat) olygu nad oedd gan Sofia y gwydnwch i allu ymdopi heb gefnogaeth ei rhieni<br>• gwerthoedd – roedd ei thad Nico yn canmol Sofia am ei gallu, ei hymddangosiad a'i fflat; gallai hyn fod wedi gwella ei hunanhyder a chael effaith gadarnhaol ar ei gwydnwch<br>• gallai'r ffaith bod disgwyl iddi ddilyn ei thad i mewn i'r busnes teuluol fod wedi gwneud i Sofia deimlo nad oedd ganddi'r gallu i wneud unrhyw beth arall a bod wedi cael effaith negyddol ar ei gwydnwch<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Gan ddefnyddio damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura, esboniwch gaethiwed Sofia i siopa.* | | **8** | | **8** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol, a gynigiwyd gan Albert Bandura, yn pwysleisio pwysigrwydd arsylwi, modelu a dynwared ymddygiadau, agweddau ac adweithiau emosiynol pobl eraill. Mae'n adeiladu ar ddamcaniaethau ymddygiadol a gwybyddol cynnar. Mae'r ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol yn ystyried sut mae ffactorau amgylcheddol a gwybyddol yn rhyngweithio i ddylanwadu ar ddysgu ac ymddygiad pobl.<br><br>• Cynigiodd Bandura fod plant yn dysgu drwy gopïo pobl eraill sy'n fodelau rôl (arbrawf dol Bobo).<br><br>• Felly yn ôl Bandura, gallai arsylwadau Sofia o'i rhieni yn siopa ac yn cael pleser o'r profiad fod wedi achosi iddi ddatblygu caethiwed i siopa gan ei bod am ailadrodd yr ymddygiad (siopa) a phrofi'r un teimladau (pleser a mwynhad) ag a welodd wrth siopa gyda'i rhieni.<br><br>• Roedd Sofia yn cysylltu siopa â'i mam ac ymlacio a mwynhad ac fel rhywbeth a oedd yn lleddfu pryder a straen.<br><br>• Pan brofodd Sofia straen a phryder rhedeg y salon trin gwallt ar ei phen ei hun ar ôl marwolaeth ei mam, defnyddiodd siopa fel ffordd o leddfu ei straen a'i phryder a chael pleser a mwynhad.<br><br>Roedd yr ymddygiad, o'i ailadrodd, yn arwain at yr un teimladau cadarnhaol a daeth yn gaethiwed.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA2 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Esboniad gwych sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura<br>• dealltwriaeth hyderus o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio caethiwed Sofia i siopa |
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio caethiwed Sofia i siopa |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio caethiwed Sofia i siopa |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o ddamcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura<br>• dealltwriaeth brin o sut mae damcaniaeth dysgu cymdeithasol Bandura yn esbonio ymddygiad Sofia |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Trafodwch sut byddai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn gallu cefnogi unigolyn sydd ag ymddygiad caethiwus.* | | | **8** | **8** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Therapi ymddygiad gwybyddol (CBT):<br>• yn seiliedig ar y cysyniad bod meddyliau, teimladau, teimladau corfforol a gweithredoedd unigolion yn gydgysylltiedig, a bod meddyliau a theimladau negyddol wedi eu dal mewn cylch o ymddygiad caethiwus ailadroddus<br>• dull ymarferol a strwythuredig sy'n anelu at helpu unigolyn i ddelio â'r problemau sylfaenol sy'n achosi'r caethiwed i siopa mewn ffordd fwy cadarnhaol drwy eu rhannu'n rhannau llai.<br>• cefnogi unigolyn i newid patrymau ymddygiad negyddol h.y. siopa<br>• ail-lunio meddyliau unigolyn a gwella'r ffordd y mae'n teimlo. Mae hyn yn helpu'r unigolyn i atal yr ymddygiad ailadroddus a ddefnyddiwyd i leddfu ei bryder a hyrwyddo hwyliau da (e.e. caethiwed Sofia i siopa)<br>• yn canolbwyntio ar broblemau cyfredol, yn hytrach na chanolbwyntio ar faterion o'r gorffennol<br>• yn chwilio am ffyrdd ymarferol o wella cyflwr meddwl unigolyn yn ddyddiol<br><br>Therapi siarad yw therapi ymddygiadol gwybyddol (CBT) sy'n gallu helpu unigolyn i nodi, deall a chywiro meddyliau wedi'u hystumio sy'n gallu effeithio'n negyddol ar deimladau ac ymddygiadau.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Trafodaeth ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT)<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn gallu cefnogi unigolyn ag ymddygiad caethiwus |
| 3 | **5-6 marc**<br>Trafodaeth dda sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT)<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn gallu cefnogi unigolyn ag ymddygiad caethiwus |
| 2 | **3-4 marc**<br>Trafodaeth sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT)<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut byddai therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) yn gallu cefnogi unigolyn ag ymddygiad caethiwus |
| 1 | **1-2 farc**<br>Trafodaeth gyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT)<br>• fawr ddim dealltwriaeth o therapi ymddygiad gwybyddol (CBT) |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

## Adran B

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.<br><br><br><br>(a) | *Mae Yousef yn 25 oed. Pan oedd yn ei arddegau (teenager), cafodd Yousef ddamwain wnaeth achosi anaf i'w ben (head injury) a'i adael gydag anabledd dysgu.*<br><br>*Disgrifiwch sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef.* | 8 | | | 8 |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Gallai anabledd dysgu effeithio ar ymddygiad Yousef mewn sawl ffordd:<br>• gallai ddod yn ddiamynedd, yn anoddefgar o gamgymeriadau pobl eraill, ac yn hawdd ei gythruddo gan ymyriadau, megis sŵn cefndir sy'n tarfu ar ei allu i ganolbwyntio<br>• gallai fod yn fyr ei dymer, e.e. pan na fydd pethau'n digwydd fel y disgwyliwyd neu pan fydd gwahaniaeth barn yn codi ag eraill<br>• gallai Yousef ddangos rheolaeth wael dros ei ymddygiad, gan arwain at byliau o ymddygiad ymosodol ar lafar neu'n gorfforol<br>• gallai fod effaith ar allu Yousef i gyfathrebu'n effeithiol gan arwain at rwystredigaeth a dicter<br>• os nad oes modd deall anghenion a dymuniadau Yousef, gallai gynhyrfu ac ymddangos yn ddryslyd<br>• efallai na fydd Yousef yn gallu ymdopi â thasgau o ddydd i ddydd heb gymorth a fydd yn effeithio ar ei hwyliau – gan achosi pryder ac iselder<br>• gallai fynd i'w gragen ac osgoi unrhyw ymgysylltu cymdeithasol, gan achosi iddo deimlo'n ynysig<br>• gallai brofi teimladau o dristwch dwys, anobaith, a galar neu fynd i deimlo na fydd byth yn gallu ymdopi<br>• gall unrhyw amhariadau gwybyddol olygu nad yw Yousef yn ymwybodol o safbwyntiau pobl eraill, neu na all werthfawrogi safbwyntiau pobl eraill, ac mae'n bosibl na fydd yn ymwybodol o anghenion pobl eraill ac y bydd yn ymddangos yn egosentrig<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o effeithiau anabledd dysgu ar ymddygiad<br>• dealltwriaeth hyderus o sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef |
| **3** | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o effeithiau anabledd dysgu ar ymddygiad<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef |
| **2** | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o effeithiau anabledd dysgu ar ymddygiad<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef |
| **1** | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth brin o effeithiau anabledd dysgu ar ymddygiad<br>• fawr ddim dealltwriaeth o sut byddai anabledd dysgu yn gallu effeithio ar ymddygiad Yousef |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Mae Yousef yn byw gyda'i rieni sy'n ei gefnogi ac yn gofalu amdano. Maen nhw'n bryderus (anxious) am Yousef gan eu bod nhw'n sylweddoli efallai na fyddan nhw'n gallu ymdopi yn y dyfodol, ac y bydd angen gofal ffurfiol (formal care) arno.*<br><br>*Esboniwch sut bydd datblygu gwydnwch o fudd i Yousef yn y dyfodol.* | | 6 | | 6 |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ystyr gwydnwch yw'r gallu i fownsio'n ôl, ac i ymdopi â sefyllfaoedd anodd a heriau.<br><br>Bydd datblygu gwydnwch o fudd i Yousef yn y dyfodol oherwydd:<br>• bydd yn datblygu'r gallu i addasu i sefyllfaoedd ac amgylcheddau newydd<br>• bydd yn teimlo'n fwy abl i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwahanol<br>• dod yn fwy hyderus a datblygu ei annibyniaeth<br>• bydd yn gallu cyflawni ei botensial yn well<br>• bydd llai o angen iddo ymddwyn mewn ffordd heriol<br>• bydd yn ymddwyn mewn ffordd sy'n llai tebygol o effeithio ar lesiant pobl eraill<br>• bydd yn datblygu hunangysyniad mwy cadarnhaol<br>• bydd yn teimlo dan lai o straen<br>• bydd yn llai tebygol o gael ei eithrio'n gymdeithasol a'i ymylu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r cysyniad o wydnwch<br>• dealltwriaeth hyderus o sut bydd datblygu gwydnwch o fudd i Yousef yn y dyfodol |
| 2 | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r cysyniad o wydnwch<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut bydd datblygu gwydnwch o fudd i Yousef yn y dyfodol |
| 1 | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r cysyniad o wydnwch<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut bydd datblygu gwydnwch o fudd i Yousef yn y dyfodol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Mae rhieni Yousef wedi gallu ei gefnogi gartref drwy ddefnyddio'r system goleuadau traffig ar gyfer rheoli ymddygiad. Mae Yousef wedi gallu cymryd rhan yn y rhan fwyaf o agweddau ar fywyd pob dydd.*<br><br>*Ystyriwch sut mae'r system goleuadau traffig ar gyfer rheoli ymddygiad yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol.* | | | **8** | **8** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r system goleuadau traffig o reoli ymddygiad yn gynllun gofal a chymorth 3 haen.<br><br>Caiff y tri cham eu disgrifio fel:<br>• y cam gwyrdd – mae'r cam hwn yn anelu at ddiwallu anghenion llesiant ac anghenion parhaus yr unigolyn (cadarnhaol, rhagweithiol)<br>• y cam oren – yn cydnabod arwyddion rhybudd cynnar ymddygiad heriol, a sut i ymateb er mwyn eu hatal rhag gwaethygu (gweithredol)<br>• y cam coch – bydd angen y cam hwn pan fydd ymddygiad heriol yn digwydd ac y bydd angen cymryd camau i sicrhau diogelwch yr unigolyn a phobl eraill (adweithiol)<br><br>Mae'r system strwythuredig hon yn galluogi staff gofal a chymorth i deimlo eu bod bob amser yn darparu gofal cadarnhaol. Gan ei bod:<br>• yn llunio cynllun gofal unigol sydd ar gael i bawb sy'n darparu gofal a chymorth i unigolyn sy'n dangos ymddygiad heriol<br>• wedi'i llywio gan asesiad o anghenion a dymuniadau unigryw unigolyn<br>• yn cynnwys unigolion a'u teuluoedd cymaint â phosibl wrth ddatblygu ac adolygu'r cynllun<br><br>Mae'r system goleuadau traffig ar gyfer rheoli ymddygiad yn rhagweithiol ac yn cynnig strategaethau i sicrhau bod gan yr unigolyn yr hyn y mae ei angen arno ac mae'n llywio ffyrdd y gellir addysgu sgiliau cyfathrebu a sgiliau eraill i'r unigolyn. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys y canlynol: | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • bod yn ymwybodol o ffactorau sbardun a sut i'w hosgoi<br>• addysgu sgiliau cyfathrebu, e.e. arwydd ar gyfer "wedi gorffen"<br>• bod yn ymwybodol o'r ffordd y dylid siarad â'r unigolyn<br>• addasu'r amgylchedd, e.e. pylu'r goleuadau<br>• gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol<br>• darparu trefn a strwythur<br>• gosod ffiniau clir a chyson<br><br>Mae hyn yn dileu'r angen i unigolyn ddangos ymddygiad heriol.<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Ymateb ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr sy'n ystyried sut mae'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad |
| 3 | **5-6 marc**<br>Ymateb da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth dda sy'n ystyried sut mae'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad |
| 2 | **3-4 marc**<br>Ymateb sylfaenol sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan sy'n ystyried sut mae'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad yn enghraifft o ddull cadarnhaol a rhagweithiol<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad |
| 1 | **1-2 farc**<br>Ymateb cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o sut mae'r System Goleuadau Traffig<br>• fawr ddim ymdrech i ymdrin â'r defnydd o'r System Goleuadau Traffig ar gyfer rheoli ymddygiad |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 4. | *Mae Mair yn 49 oed. Mae ganddi fab yn ei arddegau (teenage son), mae hi'n gweithio'n amser llawn, ac mae hi'n cefnogi ei rhieni oedrannus (elderly parents). Mae hi wedi cyfaddef wrth ei ffrind Elen nad yw hi wedi bod yn cysgu'n dda ers rhai misoedd a'i bod hi'n teimlo'n bryderus am bopeth. Dywedodd Mair ei bod hi'n gyndyn (reluctant) i weld ei meddyg teulu ac nad oedd hi eisiau cymryd meddyginiaeth. Awgrymodd Elen fod Mair yn rhoi cynnig ar ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar (practising mindfulness) gan ei bod hi wedi darllen adolygiadau cadarnhaol am y dechneg hon.* | | | | |
| (a) | *Disgrifiwch y meysydd datblygiad allweddol allai fod yn effeithio ar Mair.* | **6** | | | **6** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol.<br><br>**Corfforol**<br>• menopos – mae lefelau estrogen yn lleihau a all achosi effeithiau corfforol fel newid mewn hwyliau, anniddigrwydd, anhawster cysgu, pryder a phyliau poeth<br>• mae'r lefelau egni yn teimlo'n is, mae'n bosibl y bydd Mair yn blino'n gynt<br>• efallai y bydd siâp corff Mair yn newid ac y bydd yn magu pwysau gan fod ei metabolaeth yn arafu<br>• mae croen Mair yn colli ei elastigedd ac mae'n bosibl y bydd crychau yn dechrau ymddangos<br>• mae ei gwallt yn dechrau colli ei bigment ac felly gallai ymddangos yn fwy llwyd<br><br>**Deallusol**<br>• Efallai y bydd cof Mair yn dechrau arafu, gan ei gwneud hi'n anoddach storio a chofio gwybodaeth<br><br>**Emosiynol**<br>• Mae'n bosibl y bydd Mair yn cael 'argyfwng canol bywyd' – cyfnod dramatig o hunanamheuaeth wedi'i achosi gan y ffaith bod ei hieuenctid yn diflannu a'i bod yn dechrau'r cyfnod o drosglwyddo i oedolaeth hŷn<br>• Mae'n bosibl y bydd yn teimlo dan straen ac yn bryderus am orfod darparu gofal a chymorth i'w rhieni oedrannus yn ogystal â'i mab, gan orfod gweithio ar yr un pryd | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymdeithasol**<br>• Dylai fod yn cael mwy o amser iddi hi ei hun wrth i'r cyfrifoldebau o ofalu am ei mab leihau, ond mae'r cyfrifoldeb o ofalu am ei rhieni wrth iddynt heneiddio'n cynyddu<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA1 |
|---|---|
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r meysydd datblygiad allweddol<br>• dealltwriaeth hyderus o'r meysydd datblygiad allweddol allai fod yn effeithio ar Mair |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r meysydd datblygiad allweddol<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r meysydd datblygiad allweddol a allai fod yn effeithio ar Mair |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o rai o'r meysydd datblygiad allweddol<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r meysydd datblygiad a allai fod yn effeithio ar Mair |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (b) | *Esboniwch sut byddai ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu helpu Mair.* | | **6** | | **6** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Ymwybyddiaeth ofalgar yw ffordd o dalu sylw i'r presennol, gan ddefnyddio technegau fel myfyrdod, anadlu ac ioga. Mae'n ymwneud â'r gallu dynol sylfaenol i fod yn gwbl bresennol, yn ymwybodol o'n hamgylchedd a'r hyn rydym ni'n ei wneud, ac i beidio â bod yn rhy adweithiol nac i gael ein llethu gormod gan yr hyn sy'n digwydd o'n cwmpas.<br><br>Pa bryd bynnag y bydd unigolyn yn dod yn ymwybodol o'r hyn y mae'n ei brofi drwy ei synhwyrau, neu i'w gyflwr meddwl drwy feddyliau ac emosiynau, mae'n dangos ymwybyddiaeth ofalgar. Mae ymchwil yn dangos bod yr ymennydd wedi'i hyfforddi i ddangos ymwybyddiaeth ofalgar ac y caiff strwythur ffisegol yr ymennydd ei ailfodelu.<br><br>Gall ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar helpu Mair i wneud y canlynol:<br>• dod yn fwy ymwybodol o'i meddyliau a'i theimladau fel y gall ymdopi'n well, yn hytrach na chael ei llethu ganddynt<br>• cael amser i ganolbwyntio arni hi ei hun heb ystyried ei chyfrifoldebau<br>• lleihau ei lefelau straen a'i helpu i ymlacio a gwella ei phatrymau cysgu heb fod angen meddyginiaeth<br>• hybu ei chreadigrwydd<br>• gwella ei gallu i ganolbwyntio a'i chof gweithredol, gan ei galluogi i fod yn fwy effeithiol yn y gwaith<br>• cryfhau ei pherthnasoedd<br>• rheoli ei phryder er mwyn iddi allu ymdopi'n well â bywyd<br>• gwella ei gwydnwch<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA2 |
|---|---|
| **3** | **5-6 marc**<br>Esboniad da iawn sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o ymwybyddiaeth ofalgar<br>• dealltwriaeth hyderus o sut y byddai ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu helpu Mair |
| **2** | **3-4 marc**<br>Esboniad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o ymwybyddiaeth ofalgar<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o sut byddai ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu helpu Mair |
| **1** | **1-2 farc**<br>Esboniad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o ymwybyddiaeth ofalgar<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o sut byddai ymarfer ymwybyddiaeth ofalgar yn gallu helpu Mair |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| (c) | *Fe wnaeth Elen ddweud hefyd y dylai Mair roi cynnig ar therapi cwnsela gan fod hynny wedi bod yn llesol (beneficial) iddi hi. Fe wnaeth Elen gyfeirio Mair at gwnselydd sy'n defnyddio'r dull dyneiddiol (humanistic approach).*<br>*Gwerthuswch y cryfderau a'r cyfyngiadau o ddefnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi Mair.* | | | 8 | 8 |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r dull dyneiddiol yn seiliedig ar ddamcaniaethau Maslow a Rogers ac mae'n rhoi prosesau cwnsela person-ganolog ar waith.<br><br>Mae'r dull dyneiddiol yn ystyried y ffyrdd mae unigolion yn canfod eu hunain yn ymwybodol, yn hytrach na sut gall cwnselydd ddehongli eu meddyliau neu syniadau anymwybodol. Mae'n ymgorffori amodau craidd y canlynol:<br>• empathi (y cwnselydd yn ceisio deall safbwynt yr unigolyn)<br>• cyfathiant (y cwnselydd yn bod yn berson gonest/didwyll ac yn cael ei dderbyn felly)<br>• agwedd gadarnhaol ddiamod (y cwnselydd yn peidio â beirniadu'r unigolyn)<br><br>Cryfderau defnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi Mair:<br>• bydd yn canolbwyntio ar yr agweddau cadarnhaol ar fywyd Mair<br>• bydd yn cydnabod ei sefyllfa unigol<br>• bydd y cwnselydd yn gweithredu mewn ffordd ddilys ac yn gwneud i Mair deimlo ei bod yn cael ei gwerthfawrogi<br>• bydd yn anfeirniadol ac ni fydd yn beio Mair<br>• bydd yn ei grymuso i ddatblygu ei hadnoddau mewnol ei hun er mwyn ymdrin â'i phroblemau<br>• Nid yw'n dibynnu ar y cwnselydd i ddod o hyd i achosion/triniaethau/ffyrdd o iacháu Mair<br><br>Cyfyngiadau defnyddio'r dull dyneiddiol i gefnogi Mair:<br>• nid yw'n benodol ac nid yw'n darparu atebion neu driniaethau uniongyrchol<br>• bydd angen iddi fod yn iach yn seicolegol er mwyn cael budd ohono<br>• mae angen iddi gymryd cyfrifoldeb dros ei gweithredoedd ei hun, p'un a ydynt yn gadarnhaol neu'n negyddol | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • nid ateb cyflym mohono<br>• mae'n cymryd amser, gall gymryd amser hir i weld newidiadau neu ganlyniadau<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

| Band | AA3 |
|---|---|
| **4** | **7-8 marc**<br>Gwerthusiad ardderchog sy'n dangos:<br>• barnau craff a gwybodus am gryfderau a chyfyngiadau sut byddai'r dull dyneiddiol yn gallu cefnogi Mair<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â'r dull dyneiddiol |
| **3** | **5-6 marc**<br>Gwerthusiad da sy'n dangos:<br>• barnau rhesymegol am gryfderau a chyfyngiadau sut byddai'r dull dyneiddiol yn gallu cefnogi Mair<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â'r dull dyneiddiol |
| **2** | **3-4 marc**<br>Gwerthusiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• barnau dilys ar y cyfan am gryfderau a chyfyngiadau sut byddai'r dull dyneiddiol yn gallu cefnogi Mair<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r dull dyneiddiol |
| **1** | **1-2 farc**<br>Gwerthusiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o farn am gryfderau a chyfyngiadau'r dull dyneiddiol<br>• fawr ddim ymdrech i ymdrin â'r dull dyneiddiol |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| 5. | *Mae Maya newydd ddechrau swydd newydd fel dirprwy reolwr (deputy manager) mewn cartref gofal preswyl i oedolion hŷn. Mae gan Maya brofiad o weithio â'r cynllun Pili Pala o gefnogi dementia. Mae'r rheolwr wedi gofyn iddi wneud cyflwyniad am y cynllun Pili Pala yn y cyfarfod staff nesaf.*<br><br>*Disgrifiwch nodweddion allweddol y cynllun Pili Pala a dadansoddwch beth yw manteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia.* | **8** | | **10** | **18** |
| | Gall atebion gyfeirio at y canlynol:<br><br>Mae'r cynllun Pili Pala yn darparu system o ofal i bobl sy'n byw â dementia (neu nad yw eu cof mor ddibynadwy ag yr oedd yn arfer bod).<br><br>Mae'r cynllun yn anelu at wneud y canlynol:<br>• gwella diogelwch a llesiant unigolion â dementia<br>• defnyddio ymagwedd gadarnhaol a phriodol at unigolion â dementia<br>• defnyddio dull personol sy'n cydnabod cefndir pob unigolyn, bywyd yn y gorffennol, credoau, cyflawniadau, hoff bethau a chas bethau.<br><br>Rhoddir symbol pili pala ar gynllun gofal/nodiadau unigolyn er mwyn sicrhau bod y staff gofal a chymorth yn ymwybodol bod gan yr unigolyn hwnnw ddementia (neu amhariad ar y cof).<br><br>Mae manteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia fel a ganlyn:<br>• maent yn cael gofal personol wedi'i deilwra at eu hanghenion a'u dymuniadau unigol<br>• maent yn cael gofal mewn ffordd ragweithiol a chadarnhaol<br>• bydd elfennau eu bywyd yn cael eu cydnabod e.e. gyrfa yn y gorffennol, hobïau, a hoff bethau a chas bethau unigol<br>• bydd eu hamgylchedd yn cael ei drefnu mewn ffordd sy'n caniatáu iddynt bersonoli eu gofod personol, cael gafael ar eitemau allweddol a gweithredu cystal â phosibl mewn amgylcheddau anghyfarwydd | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cwestiwn | Ateb | AA1 | AA2 | AA3 | Cyfanswm marciau |
|---|---|---|---|---|---|
| | • prosesau cyfathrebu sy'n eu galluogi i wybod beth i'w ddisgwyl gan eu gofal, ac sy'n rhoi sicrwydd iddynt yn hytrach nag achosi mwy o bryder a straen<br>• byddant yn cael gofal a chymorth mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth o'r anawsterau y maent o bosibl yn eu cael wrth gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau<br>• byddant yn cael cymorth i ddatblygu mecanweithiau ymdopi<br>• caiff eu cynnydd ei fonitro a chaiff newidiadau eu gwneud i'w cynllun gofal a chymorth, yn ôl yr angen<br><br>Rhowch farciau am unrhyw ymateb dilys arall. | | | | |

© WJEC CBAC Ltd.

| Band | AA1 | AA3 |
|---|---|---|
| 4 | **7-8 marc**<br>Disgrifiad ardderchog sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'r cynllun Pili Pala<br>• dealltwriaeth hyderus o'r nodweddion allweddol perthnasol | **9-10 marc**<br>Dadansoddiad ardderchog sy'n dangos:<br>• dehongliad craff a gwybodus o fanteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia<br>• ymdrech hyderus a manwl i ymdrin â'r cynllun Pili Pala<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o amrywiaeth eang o derminoleg. Mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda iawn ac yn drefnus iawn, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir |
| 3 | **5-6 marc**<br>Disgrifiad da sy'n dangos:<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r cynllun Pili Pala<br>• dealltwriaeth gadarn ar y cyfan o'r nodweddion allweddol perthnasol | **6-8 marc**<br>Dadansoddiad da sy'n dangos:<br>• dehongliad rhesymegol o fanteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia<br>• ymdrech drylwyr i ymdrin â'r cynllun Pili Pala<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n glir ac mae'n dangos defnydd cywir o derminoleg. Mae'r ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda, gan ddefnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir ar y cyfan |
| 2 | **3-4 marc**<br>Disgrifiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o wybodaeth a dealltwriaeth o'r cynllun Pili Pala<br>• rhywfaint o ddealltwriaeth o'r nodweddion allweddol | **3-5 marc**<br>Dadansoddiad sylfaenol sy'n dangos:<br>• rhywfaint o ddehongliad o fanteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia.<br>• ymdrech syml i ymdrin â'r cynllun Pili Pala<br><br>Caiff ymateb yr ymgeisydd ei fynegi'n ddigonol ac mae'n dangos defnydd priodol o derminoleg. Ar y cyfan mae'r gwaith ysgrifennu wedi'i strwythuro'n dda gyda gramadeg, atalnodi a sillafu eithaf cywir |
| 1 | **1-2 farc**<br>Disgrifiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• fawr ddim gwybodaeth na dealltwriaeth o'r cynllun Pili Pala<br>• dealltwriaeth brin o'r nodweddion allweddol | **1-2 farc**<br>Dadansoddiad cyfyngedig sy'n dangos:<br>• tystiolaeth brin o ddehongliad o fanteision y cynllun Pili Pala i bobl sy'n byw â dementia<br>• fawr ddim ymdrech i ymdrin â'r cynllun Pili Pala<br><br>Mae ymateb yr ymgeisydd yn dangos defnydd sylfaenol o derminoleg. Mae peth tystiolaeth o strwythur ond gyda rhai gwallau o ran gramadeg, atalnodi a sillafu |
| | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb | **0 marc**<br>Nid yw'r ymateb yn haeddu unrhyw farciau neu nid oedd ymgais i ateb |

© WJEC CBAC Ltd.

## Grid Mapio

| Cwestiwn | | | Cynnwys y fanyleb (prif ffocws) | | | | Dyraniad marciau | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Adran | | | Rhan | Cyfanswm y Marciau | Marciau AA1 | Marciau AA2 | Marciau AA3 |
| | | | 2.5.1 | 2.5.2 | 2.5.3 | | | | | |
| **1** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 6 | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (c) | | | | 6 | (a) | **6** | 0 | 0 | 6 |
| **2** | (a) | | 6 | | | (b) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 8 | | (a) | **8** | 0 | 8 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (b) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| Adran A | | | 12 | 22 | 6 | | **40** | **18** | **8** | **14** |
| **3** | (a) | | 8 | | | (a) | **8** | 8 | 0 | 0 |
| | (b) | | 6 | | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | | 8 | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **4** | (a) | | 6 | | | (a) | **6** | 6 | 0 | 0 |
| | (b) | | | 6 | | (b) | **6** | 0 | 6 | 0 |
| | (c) | | | 8 | | (a) | **8** | 0 | 0 | 8 |
| **5** | | | | | 18 | (a) | **18** | 8 | 0 | 10 |
| Adran B | | | 20 | 14 | 26 | | **60** | **22** | **12** | **26** |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm marciau | **32** | **36** | **32** | | **100** | **40** | **20** | **40** |



© WJEC CBAC Ltd.